Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University L

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 11 Mawrth 2022** am 9.00am yn Ystafell B103, Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

**Presennol**
Jim Barclay
Yr Athro Martin Chambers
Colin Heron
Yr Athro Maria Hinfelaar
Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Diane McCarthy
Paul McGrady
Judy Owen
Maxine Penlington (Cadeirydd)
Amy Rowley
Askar Sheibani
David Sprake
Richard Thomas
Maureen Wain
Dr Leigh Griffin *(sylwedydd)*

**Swyddogion:**
Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)*
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*
James Dawson *(Cyfarwyddwr Strategol Cynllunio a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) [Eitemau 21.61 a 21.69 yn unig]*

**Ymddiheuriadau:**
Paul Barlow
Claire Homard
Lauren Hole
Sally Lambah
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
David Subacchi

| **21.47** | **Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig** | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd y Diprwy Is-Ganghellor a'r pennaeth Polisi Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd gyflwyniad ar y Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig a gweithgareddau cenhadaeth ddinesig y Brifysgol.<br><br>Gwnaeth y cyflwyniad dynnu sylw at ddiffiniad Comisiwn Prifysgol Ddinesig Sylfaenol y Rhaglen Partneriaethau Prifysgolion o ran Cenhadaeth Ddinesig a nodau'r Brifysgol i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru. Cynhyrchwyd y Strategaeth ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid ar draws Gogledd Cymru ac mae'n canolbwyntio ar (i) arweinyddiaeth, llywodraethu a gweithio fel system gyfan, (ii) cydnerthedd cymunedol a (iii) chadw'n iach.<br><br>Croesawodd y Bwrdd y cyflwyniad cynhwysfawr a hyd a lled y gwaith sy'n cael ei wneud mewn dull partneriaeth cydlynus.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R cyflwyniad. | |
| **21.48** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | |
| **21.49** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn ymwneud ag eitemau ar yr agenda. | |
| **21.50** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd**:<br>Cynigion gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ynghylch rolau Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO penodi'r isod am weddill 2021/22:<br><br>• Celia Jenkins fel Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>• Claire Homard fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>• David Subacchi fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio | |
| **21.51** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2021.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod, yn ddarostyngedig i gynnwys tri unigolyn a oedd yn bresennol ond heb eu rhestru. | |
| **21.52** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.53** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Diweddariad yr Is-Ganghellor.<br>(ii) Gohebiaeth rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghylch cais CCAUC am wyboaeth ynghylch tri mater.<br>(iii) Nodiadau drafft CCAUC o ymgysylltu'r Cyngor efo'r Bwrdd a Thîm Gweithredol yr Is-Ganghellor ar 26 Ionawr 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Eglurodd yr Is-Ganghellor y cefndir a'r cyd-destun i gais diweddar CCAUC am wybodaeth ynghylch nifer o faterion. Byddai ymateb cynhwysfawr ynghyd â dogfennau cefnogol i CCAUC a'u rhannu ag aelodau'r Bwrdd.<br><br>Derbyniwyd canlyniadau Archwiliad Tîm Sicrwydd Addysg Uwch UKVI yn ddiweddar a chadwodd y Brifysgol ei Thrwydded Noddi'n llwyddiannus, gyda rhai argymhellion.<br><br>Bellach mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymateb i argymhellion Adolygiad Augar a deilliant allweddol i Gymru fydd rhewi'r ffioedd dysgu hyd at ac yn cynnwys myfyrwyr a dderbynnir yn 2024/25, a fydd yn cael effaith hyd at 2026/27. Bydd hyn ynghyd â chwyddiant yn rhoi pwysau arwyddocaol ar gyllideb y brifysgol. Mae Prifysgolion Cymru a CCAUC wedi cytuno i gyfarfod ag Is-Gangellorion a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru i ystyried y goblygiadau yng Nghymru, yn cynnwys y trothwyon ad-dalu benthyciad ffi dysgu a gofynion cymhwysedd isafswm. Hefyd mae ymgynghori cyfredol ynghylch gostwng lefel y ffioedd dysgu ar gyfer graddau Sylfaen, a fyddai'n medru dylanwadu ar benderfyniadau prifysgolion i roi'r gorau i'w cynnig. Roedd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru'n bwriadu codi mater ffioedd dysgu graddau Sylfaen gyda'r Gweinidog yn ddiweddarach ym mis Mawrth.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI Adroddiad yr Is-Ganghellor. | |
| **21.54** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr, mis Mawrth 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at bwyntiau allweddol yn yr adroddiad ysgrifenedig yn cynnwys bod Lauren Hole ac Amy Rowley yn ymgeisio am rôl y Llywydd ac Is-lywydd yn yr etholiadau swyddogion sabothol cyfredol; roedd y broses recriwtio Prif Weithredwr yn digwydd ar hyn o bryd; canfuwyd nad oedd yr ap Umii yn addas ar gyfer y myfyrwyr felly roedd rhagor o waith yn cael ei wneud i hybu'r grŵp Facebook MateSpace ac roedd y platfform adborth gan fyfyrwyr Unitu yn gweithio'n dda, gyda'r staff a chynrychiolwyr cyrsiau wedi derbyn hyfforddiant.<br><br>Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Undeb Myfyrwyr ar eu cyflawniadau parhau wrth gefnogi'r myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.55** | **Ymchwil** | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil ynghylch y seilwaith ymchwil ym Mhrifysgol Glyndŵr yn cynnwys: y cynnydd o ran bodloni'r meini prawf a metrics Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil; creu un ffynhonnell data ymchwil trwy system newydd System Gwybodaeth Ymchwil Glyndŵr (WGRIS); y camau tuag at ryddhau canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021; mecanweithiau i sicrhau gweledd gweithgareddau ymchwil a gwreiddio diwylliant ymchwil cadarnhaol; sut mae'r capasiti ymchwil yn y Brifysgol yn cael ei ddatblygu a'i gryfhau a'r gwahanol ffyrdd mae'r Brifysgol yn sicrhau gweithredu'r arferion gorau.<br><br>Croesawodd y Bwrdd y cyflwyniad cynhwysfawr ynghylch sut mae'r diwylliant ymchwil yn datblygu yn y Brifysgol. Mewn ymateb i gwestiynau eglurwyd bod: cynlluniau ymchwil personol yn rhan o'r cynllun Adolygiad Datblygiad Proffesiynol a bod nifer o fecanweithiau'n cael eu defnyddio i gryfhau'r diwylliant ymchwil a datblygu staff fel ymchwilwyr ac arweinwyr llwyddiannus.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cyflwyniad. | |
| **21.56** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Yr Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Ionawr 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at effaith ariannol barhaus y nifer is na'r targed yn y gyllideb o fyfyrwyr israddedig llawn amser newydd a myfyrwyr yn dychwelyd yn 2021/22. Roedd rhagfynegiad o ddiffyg gweithredol ar ddiwedd Ionawr ac eglurwyd y rhesymau am hyn. Darparwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | adroddiad cynnydd ynghylch y camau gweithredu lliniaru a gyflwynwyd gyda'r nod o sicrhau sefyllfa adennill costau.<br><br>Ers cyhoeddi'r adroddiad cadarnhawyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru trwy CCAUC a byddai dyraniad gwariant ar offer a datblygiadau eraill i gefnogi'r newid i sefyllfa sero net a thrawsnewid digidol yn mynd yn erbyn tua £500k o gostau'r flwyddyn gyfredol. Roedd trafodaethau'n digwydd â'r actiwariaid pensiwn hefyd i ganfod a fyddai'r costau Safon Adrodd Ariannol FRS17 yn is na'r £1m yn y gyllideb. Roedd costau'n cael eu lleihau'n weithredol tra'n sicrhau bod gweithgareddau allweddol penodol yn cael adnoddau digonol.<br><br>Roedd rhai risgiau'n parhau o ran colledion potensial yn Glyndŵr Innovations Ltd ac roedd y Bwrdd wedi gofyn am wybodaeth fanylach am amseru i gyfateb costau ac incwm yn y cyfnod yr oeddynt yn digwydd a chael rhagor o fanylion ynghylch pryd y byddai incwm yn y dyfodol yn cael ei dderbyn. Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn monitro perfformiad ariannol Glyndŵr Innovations Ltd yn ofalus hefyd.<br><br>Nodwyd bod costau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol wedi'u cyfrifo o dan eitemau ac eithrio tâl ac roedd yr aelodau'n awyddus i ddeall swm yr incwm ffioedd dysgu net myfyrwyr rhyngwladol ar ôl talu'r costau recriwtio.<br><br>Roedd cynllun gweithredu i cyflawni dyraniad credydau rhan amser yn parhau ac roedd wedi mynd trwy broses graffu mewnol. Roedd heriau'n parhau ond y bwriad oedd cyflawni'r dyraniad llawn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **DE** |
| **21.57** | **Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad terfynol adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd 2021/22 gan Advance HE.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a thynnodd sylw at ymwneud y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ag Aaron Porter o Advance HE ynghylch cynnwys yr adroddiad ac argymhelliad y Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CADARNHAU canfyddiadau'r adroddiad a CHYTUNO bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried yr argymhellion yn fanwl ac yn llunio a chyflwyno cynllun gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad. | |
| **21.58** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad Campws 2025.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau ynghylch y datblygiadau o ran cael gwared ar amod cynllunio 11 o'r Chwarter Gogleddol a'r amodau newydd yn deillio o hynny, yn cynnwys mecanwaith rhwystro ar y maes parcio a chynllun rheoli'r maes parcio. Byddai'n rhaid i'r amodau'n gysylltiedig â Lôn Crispin yn adlewyrchu'r amodau cynllunio yng nghaniatâd cynllunio Plas Coch a Phentref Myfyrwyr Wrecsam fynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio i'r cymeradwyo oherwydd y cyflwynwyd nifer o wrthwynebiadau i'r cais cynllunio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd y targedau newydd atal llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar draws Cymru yn arafu'r broses gynllunio ac nid oedd yr awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth hyd yma i fynd i'r afael â goblygiadau'r targedau newydd.<br><br>Bu oedi gyda chymeradwyo cynllun busnes amlinellol y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Erbyn hyn rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ar y safle ym mis Tachwedd 2022 a rhagwelir cwblhau'r gwaith erbyn mis Medi 2024. Cytunwyd ar gynllun gosod y gwaith mewn egwyddor ac, oherwydd costau adeiladu cynyddol, byddai sgôp i leihau maint a chostau'r adeilad. Gallai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gydnabod y pwysau o ran costau yn eu cyllid grant.<br><br>Gellid bod angen edrych eto ar yr elfennau sy'n weddill o ran y cynllun Campws 2025 yn sgîl y costau adeiladu cynyddol i weld a ydynt yn parhau'n gyfredol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI diweddariad Campws 2025. | |
| **21.59** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd am y digwyddiadau y bu ynddynt ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.<br><br>Roedd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru yn cyfarfod â'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar 21 Mawrth i drafod Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru a goblygiadau ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Augar.<br><br>Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd i ddynodi ar sail 1:1 a byddai'n cynnal Adolygiad Datblygiad Proffesiynol â'r Is-Ganghellor a Chlerc y Bwrdd gan ystyried cyflawni amcanin y flwyddyn flaenorol, i baratoi i'r Cadeirydd newydd fynd i'r afael â'r drafodaeth ynghylch amcanion y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.60** | **Adroddiad y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad a chofnodion o gyfarfod mis Chwefror 2022 y Bwrdd Academaidd.<br>(ii) Datganiad Canlyniadau Graddau mis Ebrill 2022<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwyodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw at gefndir a phwrpas y Datganiadau Canlyniadau Graddau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a'r cofnodion.<br><br>CYMERADWYO'R Datganiad Canlyniadau Graddau Ebrill 2022 i'w gyhoeddi. | |
| **21.61** | **Adroddiadau Risgiau Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb risgiau corfforaethol a Map Gwres Risgiau, mis Chwefror 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategaeth a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yr adroddiad a chadarnhaodd bod y gofrestr risg yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd cyn ei chyflwyno gan Fwrdd yr Is-Ganghellor i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Mawrth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Fel rhan o’r adolygiad gofynnwyd i Fwrdd yr Is-Ganghellor ystyried effaith potensial y rhyfel yn Wcráin lle gallai fod yn ofynnol i’r Undeb Ewropeaidd ymateb i sefyllfa sy’n gwaethygu ac yn esgyn, a allai effeithio ar gyllideb y Brifysgol a recriwtio staff a myfyrwyr, er enghraifft, oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd a bwyd ac ymosodiadau seiber potensial.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch pa mor gyflym y gall risgiau gael eu gwireddu a gofynnwyd i Fwrdd yr Is-Ganghellor ystyried cynnwys asesiad cyflymder y risg mewn adroddiadau risg yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad. | **JD** |
| **21.62** | **Cylchlythyrau CCAUC a chylchlythyrau eraill** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiadau ar gylchlythyrau CCAUC yn ymwneud â chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr Addysg Uwch ar gyfer iechyd a llesiant ac ymgynghoriad ynghylch canllawiau diwygiedig ar gyfer siarter i fyfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad. | |
| **21.63** | **Dyddiadau cyfarfodydd 2022/23** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau ar gyfer 2022/23.<br><br>**Penderfynwyd**<br>NODI’R dyddiadau. | |
| **21.64** | **Pwyllgorau’r Bwrdd** | |
| | **21.64.01 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.<br>(ii) Dogfen yn amlinellu sut mae’r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 10 Chwefror heb eu cadarnhau wedi’u dosbarthu ar wahân i bapurau’r Bwrdd.<br><br>NODI’R adroddiad ynghylch sut mae’r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. | |
| | **21.64.02 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 10 Chwefror heb eu cadarnhau wedi’u dosbarthu ar wahân i bapurau’r Bwrdd. | |
| | **21.64.03 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2022.<br>(ii) Cynnig i ddirprwyo cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad 2023/24 i Gadeirydd y Bwrdd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2022.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 11 Chwefror heb eu cadarnhau wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.<br><br>CYMERADWYO dirprwyo i Gadeirydd y Bwrdd gymeradwyo a llofnodi Cynllun Ffioedd a Mynediad 2023/24, yn ddarostyngedig nad oes unrhyw newidiadau arwyddocaol o'i gymharu â chynllun 2022/23 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. | |
| | **21.64.03 Yr Is-gwmnïau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion:<br>(i) Cyfarfod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022.<br>(ii) Cyfarfod Glyndwr Innovations Ltd a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2022.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnodion. | |
| **21.65** | **Cadeirydd y Bwrdd** | |
| | Dan 'Unrhyw fater arall' diolchodd yr Is-Ganghellor i Maxine Penlington am arwain y Bwrdd yn rhagorol dros y chwe blynedd ddiwethaf. Roedd y Bwrdd a Thîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn hynod o ddiolchgar am ei chyngor doeth a'i hymroddiad i'r Brifysgol a byddai colled enfawr ar ei hôl. Dymunwyd yn dda iddi yn ei mentrau yn y dyfodol. | |

Diwedd